HG 33.5.208

# MARWNAD

*Er Coffadwriaeth am y diweddar Hybarch David Williams, yr hwn a fu farw Awst 20fed, 1874, yn 95 mlwydd oed, bu yn weinidog yr efengyl rhwng Llanwrtyd, Troedyrhiwdalar, Ebenezer (Merthyr Cynog), Beulah, Olewydd, a Chapel y Rhos, 71 o flynyddoedd gyda llwyddiant mawr, ac yn pregethu 75.*

---

"Meddyliwch am eich blaenoriaid, y rhai a draethasant i chwi air Duw; ffydd y rhai dilynwch, gan ystyried diwedd eu hymarweddiad hwynt." Heb xiii 7

---

Gan Roger Jones, Llanwrtyd, (brawd arall Isaac o Dreflys.)

---

## PRIS TAIR CEINIOG.

---

1. O'r galar yn sion y sydd,
  Mae'r bobl sydd brydd yn dorf fawr,
Waeth colli rhai enwog mewn ffydd,
  Mae'r rhybudd i ninau sydd nawr;
Fe fu'r hen dduwiolion yn byw,
  Ryw ganoedd o flwyddi mae'n wir,
Ond dyna ewyllys ein Duw,
  Oedd marw er cael byw mor hir.

2. O Williams Llanwrtyd fe aeth,
  Er bod yn hirfaith yn y byd,
Ac fe roddodd heibio ei waith,
  Er iddo lafurio cyhyd;
Nantydderwen oedd enw y lle,
  Bu'n dechreu anadlu'n bur fach,
Llanwrtyd hoff hefyd yw'r plwy',
  Bu'n tramwy rhyw lawer mor iach.

X205316755

3. Adfaelion Nantydderwen y sydd,
   Pe heibio'n ei ddydd ai rhyw fardd,
Barddonai a'i galon yn brydd,
   Wrth gofio'r gwr ufudd a hardd ;
Un mil a saith cant oedd y flwydd,
   Mae'n afrwydd i ddyweud *date* mor hir,
Y ganwyd y gwr gadd fath lwydd,
   Saith deg a naw, herwydd mae'n wir.

4. Yn ieuainc fe roddodd ei hun,
   I'r ceidwad sy'n ddyn ac yn Dduw,
'N ganlynol i'w bobol ar frys,
   Yn ol ei ewyllus mor fyw ;
Mewn gwres a bywiogrwydd daeth ef,
   I eglwys oedd gref ac mor *nice*,
Meddianodd yn fawr ar y pryd,
   O yspryd 'r hen dad Isaac Price.

5. Ac yspryd Duwiolion y lle,
   A gadwodd e'n gynnes y mla'n,
Fe fu yn grefyddol o'i fodd,
   Mor danllyd heb ddiffodd y tan ;
Pan roedd o gylch unarddeg oed,
   Doe'n aelod oedd hynod o hardd,
Yn mhen naw mlwydd etto o'i fodd,
   Pregethodd 'r hwn chwysiodd'n yr ardd.

6. Bob mis 'roedd cyfeillach pryd hyn,
   Mewn ffermdy cyfagos i'r fan,
'Run ffermdy, Tygwyn oedd y lle,
   Pregethai fe gynta'n bur wan,
Ar lan afon Cerdin bu'n byw,
   Hen felin yw enw y ty,
A myned pan 'rai at ryw grych,
   Pregethai yn wych ac yn hy.

7. Pan 'roedd yn gwneud 'sgydiau ca'dd glod,
   Bu'n hynod o weithgar yn awr,
Pan 'r ydoedd ef gyda gwaith crydd,
   At hyn teimlai awydd mor fawr ;

'Nol dechreu pregethu fe fu,
  'N ei wneud a'i holl egni trwy 'i oes,
Gwnai ddyweud wrth drieiniaid am ffoi,
  Ac ymbarotoi cyn doe'r nos.

8. Yn Gwrecsam bwriadai gael dysg,
  Da addysg yn morau ei oes,
Ond etto myn'd wnaeth at ei waith,
  Hwn oedd gweinidogaeth y groes;
Derbyniodd ef alwad unfryd,
  Eglwysi da hefyd dau le,
Llanwrtyd lle magwyd ein tad,
  Throedrhiwdalar rodd alwad iddo fe.

9. Derbyniodd ef alwad ar arch,
  Ei hybarch hen dad Isaac Price,
Yn y ddau le'n llafurio ynghyd,
  Y buont yn hyfryd o *nice*;
Rhyw ddeunaw can mlynedd a thair,
  Oedd oedran gwaredwr y byd,
Pan urddwyd e' i draethu y gair,
  A gwaith gweinidogaeth i gyd.

10. Tan gysgod llwyn collen yn rhwydd,
  Cymmerodd y swydd bu mor faith,
O wres yr haul ydoedd mor boeth,
  A'i llanw hi'n ddoeth iawn a wnaeth;
'Doedd dim rwystrau Williams i ddod,
  Un cyfnod i gysegr Duw,
Trwy'r gwlaw, eira, rhew yn ddibaid,
  Rhyw raid oedd i ddod tra bu byw.

11. Fe aeth i Caerfyrddyn ryw dro,
  Phregethai am ddeg, yno'n y lle,
'Nol teithio ar annifail trwy'r nos,
  Da oedd trwy ei oes i gael ef;
Pregethodd bob Saboth ond un,
  O ddechreu hyd derfyn ei daith,
'Roedd ef a'i Eglwysi'n gytun,
  Fu dim anghyffredin mor faith.

12. I Llanwrtyd fe ddoe erbyn deg,
Os cwrdd ar yr adeg hyn f'ai,
Nid rywbryd 'r arferau 'fe ddod,
Doe'n barod cyn dechreu'r cwrdd dau;
Saith deg ac un flwyddyn y bu,
Yn gweinidogaethu'r un lle,
Mwy hefyd bu'r gwr oedd mor gryf,
Ryw bedair, pregethu bu ef.

13. O bob lle fe ddeuai'n y nos,
'Nol aros i roi pregeth bob pryd,
A thrwy'r holl afonydd yn gros,
Nes byddai'n ei gartref oedd glud;
Deng milldir neu unarddeg oedd,
Y milldiroedd bu'n teithio tua thre',
Pan wedi pregethu mewn chwys,
Ei ddewis oedd myn'd o bob lle.

14. Nid unwaith na dwy ond yn hir,
Y bu ef mewn llafur mor gaeth,
Tra bu yn weinidog o hyd,
Yn Eglwys Llanwrtyd fe 'i gwnaeth;
Cyfeillach bob mis oedd pryd hyn,
Ar ochor y bryn gelwyr Fol,
Ac enw y lle oedd Tygwyn,
Doe yno mae'n syn ac a'i nol.

15. Pan cadwai gyfeillach bob pryd,
Profiadau bron gyd yno f'ai,
Rhyw bedwar fynycha ar y tro,
Rwy'n cofio'n bur dda fel y gwnai;
Bob pryd cydymddiddan mor rhydd,
Chwiorydd a brodyr o'u bodd,
Yn dyweud eu profiadau er bydd,
I bawb fai'n bresenol ar go'dd.

16. 'Nol codai rhyw un ar ei dra'd,
Ac adrodd ei brofiad yn wan,
Mor fywiog cyfodai'n hen dad,
Yn frysiog gwnai i godi ir lan;

Fe geisiai gan ryw ddau neu dri,
  Gynghori pob un fyddai'n dyweud,
A phobun trwy'r lle ufuddhau,
  Yn fuan pawb wnai'r peth fai'n ddyweud.

17. 'Does un rheol bendant syll bach,
  I gadw cyfeillach medd ef,
Gwneud lles i eneidiau sydd bwys,
  Pob gair wasgai'n ddwys iawn i dref;
Gwahoddai ryw chwaer i dd'od mla'n,
  Wrth ymddiddan ai'n dân trwy'r holl dy,
Distawrwydd chwaeriorydd geir 'nawr,
  O na thorre'r wawr fel y bu.

18. Yn nhy cwrdd Troedyrhiwdalar ryw nos,
  Gwnaeth aros yn ol haner cant,
O fewn y gyfeillach 'r un pryd,
  Gan ddewis byw bywyd y plant;
Cwrdd gweddi oedd gyntaf i gyd,
  Bu'r bobl ynghyd bedair awr,
A chwrdd arall wrth fyn'd tua thref,
  A myn'd adref 'nol toriad y wawr.

19. Ceir gwel'd darlun Williams mae'n wir,
  A hwnw'n bur gywir all fod,
Ond byth ni cheir gweled ei wedd,
  Mewn bedd mae'r gwr rhyfedd ei glod;
I chwech ugain a chwech gyda blas,
  Deheulaw cymdeithas rhodd e',
'Run Saboth cymuneb o'i fodd,
  Rhyw Nefoedd oedd bod yn y lle.

20. Un Saboth o'r mis aeth yn hir,
  I Merthyr yn morau ei oes,
Ac ar ei ffordd adref pryd hyn,
  Pregethai'n Dolmenyn y nos;
Bu'n fisol yn hir yn Dolgaer,
  Gwahoddwyd e'n daer ac fe ai,
'Roedd iddo fe yno'r fath barch,
  'Roedd Cappel Llangammarch yngau.

21. Fe ddoe pob enwadau ynghyd,
 I'w wrando fe'r pryd bydde'n dod,
'Nol gwrando 'roedd pawb yn gytun,
 Yn sydyn yn traethu ei glod;
Un rhyfedd am fagu y gwan,
 Fu ef yn mhob man tra bu byw,
Fe driniau y rhai ieuainc fel wŷn,
 Yn fwyn iawn yn Eglwys ei Dduw.

22. Ehedeg wnaeth adref o gôl,
 'R holl bobol i fythol fwynhau,
Yr Iesu'r hwn rhoddodd ei gred,
 A'i weled ef fel ac y mae;
Crist ynddo cyn iddo fyn'd bant,
 Oedd obaith gogoniant trwy ffydd,
Fel mae ef yn mhob rhai o'i blant
 Y rhai wir obeithant bob dydd.

23. Er fod Williams Llanwrtyd mewn bedd,
 Mae'n enw teuluedd yn nawr,
A bydd nid am ryw adeg fer,
 Trwy Gymru bydd amser tra mawr;
Llaw amser yn drwm wnaeth ei hol,
 Ar wr fu mor wrol trwy 'i ddydd,
Er bod yn y beddrod yn faith,
 Daw heb lygredigaith o'r pridd.

24. O'i flaen ni bu pregeth erioed,
 Mewn pwlpit yn cyfnod o'i oes,
Annioddefol i hyn oedd i fod,
 Bob pryd 'roedd yn hynod o groes;
Rhyw lawer o weithiau'n y nos,
 Faith oriau bu'n aros i lawr,
A stydio Pregethau wnai ef,
 A'u cofio ond te thalent fawr.

25. Mwy gollwn o'm cysgu medd ef,
 Na gollais trwy'm dyddiau maith iawn,
Cyn byddai un bregeth o'm bla'n,
 'Roedd ef yn ddyn cyfan a llawn;

Fe ddywedai ef wrthyf ryw dro,
   Rhaid twymo pob pregeth yn awr,
Ynghalon pregethwr gwn fel
   Y byddo'n *bombshell* i'r gwrandawr.

26. Pan b'ai mewn cymanfa'n ddioed,
   Fe 'i rho'id ef yn ola ar a câ,
'Nol byddai trwy'r cwrdd fel y bedd,
   'Roedd ef yn un rhyfedd o dda;
Y lle mwyaf amlwg rho'id ef,
   Os gwasgare y dorf yma a thraw,
Pan 'rai ef i'r lan doent ynghyd,
   'R holl dorf oedd i gyd wrth ei law.

27. Os gwnaeth rywbryd ddigio trwy ei oes,
   Cyn nos 'roedd maddeuant i'w gael,
A maddeu a wnaeth ef bob pryd,
   Yn hyfryd cyn machlud yr haul;
Os na wnawn ni faddeu i gyd,
   'Does gobaith am wynfyd y Nef,
Os gwnaiff rhywrai'n digio ryw bryd,
   Gwnawn fadde i gyd fel gwnaeth ef,

28. Galaru mae blant am eu tad,
   Diau teimlent gariad mor fawr,
Mae rhai yn dra phell o'r hen wlad,
   Cawd hoff gyfarfyddiad cyn nawr;
Ni chwrddant fel teulu byth mwy,
   Fel gwelwyd hwy yma'n y byd,
Ond cwrddant rieni a phlant,
   Gobeithio'n well byddant i gyd.

29. Os bu'n ein rhybuddio mor hir,
   A ninau'n wrthodwyr o Grist,
Os awn ni fel hyny i'r bedd,
   Am byth bydd yn rhyfedd o drist;
Difrifol dros achos ei Dduw,
   A fu tra bu byw yn y byd,
Cynghori pob rhai a wnai'n tad,
   I 'mofyn am geidwad mewn pryd.

30. Rhodd heibio i gario y cledd,
Mae 'i agwedd yn rhyfedd o hardd,
Cadd balmwydd yn ebrwydd mewn hedd,
Mil gwell y'w nag adda'n yr ardd;
Galaru sydd yma yn awr,
Llawenydd tra mawr yw hi fry,
Moliana ei Dduw uwch y rhod,
Yn well nag erioed gyda ni.

31. Fe gadwyd i'n tad Jubili,
Hyn gofier yn Nghymru yn hir,
'Mhen hanner can mlynedd oedd faith,
O'i dda weinidogaeth mae'n wir;
'Roedd mor orfoleddus ar y pryd,
Ei yspryd a neb yn y lle,
Y ddau ddydd yn teimlo mor llon,
Ei galon a neb oedd efe.

32. Yn galed bu Williams o hyd,
Yn gweithio trwy 'i fywyd i'w fedd,
Er achub eneidiau pob rhai,
Ond heddyw'n ddiau mae mewn hedd;
Ymaflau mewn pynciau mawr iawn,
'Roedd ganddo'r fath ddawn iddeu trin,
Fe 'i triniau mewn goleu a gwres,
Gwnai 'i oreu i wneud lles i bob dyn.

33. Trwy ei weinidogaeth fe drodd,
Rhyw ganoedd tra parodd ei oes,
I arddel y ceidwad o'u bodd,
Ddioddefodd farwolaeth y groes;
O cartref fe deithiai mewn pryd,
'N llawn bywyd i gyd at ei waith,
Bob Saboth a chyfoeth y nef,
Gyhoeddai am flwyddau tra maith.

34. Ca'dd wel'd diwygiadau mor gryf,
Fu falle yn Nghymru erioed,
Ac amlach fe allai'n ei ddydd,
Nag undyn oherwydd ei oed,

Y patriarch fachgen oedd hen;
  Fu'n llawen wel'd llwyddiant y gwir,
Molianai ei Dduw ar ei wên,
  Yn ngwres diwygiadau'n y sîr.

35. Ac hefyd i hwyl rai yn rhwydd,
  Pan glywai fod llwydd mewn rhyw fan,
A gofud ei galon trwy 'i oes,
  Oedd gweled yr achos yn wan;
Efengyl ei fywyd ef fu,
  Ei phregethu hi'n hyfryd a wnaeth,
Ni theimlodd hi'n ddiflas un pryd,
  Yn ddiau er cyd oedd y daith.

36. Deubarth o'r un yspryd ar frys,
  Ddisgyno ar Griffiths a'r wlad,
'Run grefydd fo'n meddiant y byd,
  Bob ennud a'n hen hybarch dad;
Nid dyn i un Eglwys fu'n tad,
  Ac nid dyn un enwad na sîr,
Dyn Cenedl gyfan o'r bron,
  Fu ef hyd yr afon mae'n wir.

37. Os aeth ein Elias i'r nef,
  Mae 'i fantell ef 'nol gyda'r byw,
Ond etto fydd hono ddim gwerth,
  Heb gael yr un nerth gan ei Dduw;
Heb gael Duw Elias i'r maes,
  Pob eglwys fydd ddiflas trwy'r wlad,
Er maint y trefniadau i gyd,
  Dim bywyd heb gael Duw ein Tad.

38. Oferedd i'm weithian un pryd,
  Fydd chwilio'n fy mywyd un lle,
Am Williams Llanwrtyd er cyd,
  Y bu cyn ei symmud i'r nef;
Os af i Feirionydd neu Fon,
  Neu i sîr Gaernarfon neu Fflint,
Ni welaf 'mo hono ond sôn,
  Am y gwron ei fod yno gynt.

39. Ac i sîr Drefaldwyn lle gwych,
Ac hefyd i Dinbych o'm bodd,
Ni allaf ei gael ef byth mwy,
Yn unman er tramwy lle'r o'dd ;
Os trwy sîr Forganwg a'r Dre,
A chwilio sîr Fynwy i gyd,
Ni allaf fi gael 'mo hono fe,
Yn unman lle teithiau un pryd.

40. Os af i Caerlydd ar fy nhra'd,
Ac hefyd Llynlleifiad lle mawr,
Y ddau le y bu fy hen dad,
'N rhoi llawer cyhoeddiad cyn nawr ;
'Nol rhoddai gyhoeddiad doi i'r lle,
A phregethai'r fath oreu glyw clust,
Ond os af byth bellach i'w hôl,
Dychwelaf yn ol llawn mor drist.

41. Er chwilio sîr Benfro bob tŷ,
A sîr Aberteifi o'r bron,
A thrwy sîr Gaerfyrddyn i gyd,
Lle bu yn ei fywyd mor llon ;
A thrwy sîr Faesyfed 'nol hyn,
A gofyn a welsoch fy nhad,
Yr atteb a gawn i mor syn,
Ei debyg nid oes yn ein gwlad.

42. Fe deithiai trwy'r nos tua thref,
Ei gartref a deimlai mor glud,
A chartref cysurus ga'dd ef,
'Doedd gwell yn ddiamau'n y byd ;
Bu 'i briod yn disgwyl yn faith,
Ei weled o'i daith bell yn dod,
A hyn fynyw weithiau a wnaeth,
Gan gyhoedd yn helaeth cadd glod.

43. Fe wnaeth ei hoff briod heb ble,
Ei gartre'n gysurus i'n tad,
Waith hyny gwnai dynu tua thref,
O bob man lle byddai trwy'r wlad ;

Fe fu hi hyd haner y nos,
  Yn aros i'w ddisgwyl o'i daith,
Pan byddai pob un yn y ty,
  Yn cysgu ond hi lawer gwaith.

44. Os chwiliaf gapeli y sîr,
  Ga'dd fwyaf o'i lafur trwy 'i ddydd,
Dychwelaf o honynt mae'n wir,
  'N hiraethlon a'm calon yn brudd;
Chaf yn ei lyfyrgell un pryd,
  Ei weled trwy'm bywyd i mwy,
Os i'w 'stafell wely yr af,
  Chaf yno ei wel'd ond caf glwy'.

45. Os chwilio wnaf etto ymla'n,
  A myn'd at y tan lle y bu,
Ni welaf ef yno'n un man,
  I lawr nac ir lan trwy'r holl dy;
Os chwilio wnaf etto y tir,
  Lle bu ef yn hir iawn ryw bryd,
A chwilio o amgylch pob peth,
  Nes treilio fy nerth i i gyd.

46. Mi gwelais i ef lawer gwaith,
  'N marchogaith yn brydferth ei wedd,
Pa le mae ef dywedwch yn awr,
  O mae y gwr mawr yn y [illegible],
Yn ymyl ei briod yn fud,
  Heb deimlo dim gofud na braw,
Do'nt etto i fyny o'r pridd,
  Yn ddedwydd y boreu a ddaw.

47. Pregethu'n Llanwrtyd y bu,
  Pythefnos a thri dydd yn llawn,
Cyn iddo ef 'madel a'r byd,
  Yn hyfryd y boreu a'r prydnhawn;
Pan wedi pregethu 'n y nos,
  Aeth adref ac heb aros dim,
Do, ar ei annifail ei hun,
  Mor sydyn ■ dyn yn ei rym.

48 Bu 'i gartre 'n gysurus o hyd,
Tra parodd ei fywyd i fod,
I'w hoff ferch yn nghyfraith mae i ni,
Am hyn briodoli y clod;
Ein hybarch dad welodd ei fedd,
Saith mlynedd cyn diwedd ei oes,
Diolchai am weled cyn hyn,
Calfaria y bryn bu y groes.

49. Mi welais fy medd meddai fe,
Dydd claddai fe 'i briod hoff iawn,
Ond diolch mi welais ar lw,
Cyn hyn 'rhwn fu farw brydnhawn ;
Er bod yn cydorwedd mewn pridd,
Ni fydd un gymdeithas byth mwy,
Fel yr hoff gymdeithas a fu,
Mewn teulu mor faith rhyngddynt hwy.

50. Dymynem faen hardd iawn i fod,
Ar fedd y gwr hynod ar frys,
Neu farbl fo'n rhoi iddo glod,
Bob cyfnod er cymmaint fo 'i bris ;
Lefara trwy'r oesoedd ar fedd,
Tywysog hedd, gwr oedd yn fawr,
Ei fod yno'n wael iawn ei wedd,
Yn gorwedd o'r diwedd yn awr.

51. 'R addoldai'n ddu welir yn awr,
Waith colli gwr mawr fu'n ein plith,
Ni chlywir ef yma ar y llawr,
'N pregethu un bregeth mwy byth ;
Mae gwel'd yr areithfa yn ddu,
Yn peri i mi gofio yn syn,
Am Griffiths gwr hysbus i mi,
Gwr welais yn gryf iawn cyn hyn.

52. Cyfeillion cu ydoedd y ddau,
Ac felly'n parhau bob rhyw awr,
Bron methu pregethu bu'n tad,
Oherwydd fod cariad mor fawr;

Rhwng Griffiths ac yntau yn bod,
  Mewn gofud a thrallod 'roedd ef,
Ond heddyw'n cyd ddechreu rhoi clod,
  Heb ddarfod am byth yn y nef.

53. Yn angladd ein Griffiths y bu,
  Bron methu pregethu ar g'odd,
Er teimlai'n y pwlpid'n fwy cryf,
  Nag unman a mwy wrth ei fodd;
Pan fu farw Griffiths ei frawd,
  O'r wylo wnai tlawd oedd ei wedd,
Phregethodd ef byth fel o'r bla'n,
  Mae heddyw ei hunan mewn bedd.

54. I gludo gweddillion ein tad,
  Daeth dynion y wlad ar y dydd,
'Nol bod yn cael lluniaeth yn faith,
  'R holl dorf a aeth ymaith yn brudd;
Gwnaeth Williams ei fab gwr y lle,
  Roi ciniaw a thea i bob rhai,
Daeth pob un i'w 'mofyn heb ble,
  Neu arnynt hwy'n ddiau bu'r bai.

55. Daeth ryw amryw weinidogion,
  Er mwyn gwel'd ein ffyddlon dad,
Ar y dydd ehedodd adre',
  O wahanol barthau'r wlad;
Meddwl am ei hoff gymdeithas,
  Heb ddim adflas bawb yn iach,
Fel y cawsant amryw weithiau,
  Gydag e'n y parlwr bach.

56. Wedi myned mewn i'w 'stafell,
  Cawd eu gyfaill yno'n fud,
Dim cymdeithas byth ond hyny,
  A neb fu'n garu yn y byd:
Aml un mae'n wir obeithiau,
  'N gadarn byddai fab can mlwydd,
Wrth ei wel'd mor gryf rwy'n credu,
  Gellid barnu hyny'n rhwydd.

57. Rhoddaf enwau y pregethwyr,
'N eithaf cywir yma i lawr,
Fu rwy'n gwybod wedi dyfod,
'N dyweud yn angladd y gwr mawr;
Daeth ugeiniau na siaradai,
Ac fe'i parchau pawb mor fawr,
A phe buasai pob un yno,
'N dyweud am dano am ryw awr.

58. Edwards, Aberdare, pryd hyny,
Ro'dd i ganu emyn ma's,
Wrth y ty y bu'n preswylio,
Wr wneir gofio'r ffyddlon was;
A darllenodd nid yn ddiflas,
Am Elias gwr oedd *nice*,
Ac heb gymmell am y fantell,
Ar ei ol ga'dd Eleseüs.

59. Hefyd darllen wnaeth yn union,
Am y cwmwl tystion fu,
Fel 'rym ninau ngwlad y gelyn,
Heddyw'n canu'r delyn fry;
Prichard, Sciwen, yn dra sydyn,
Roddodd emyn maes 'nol hyn,
A gweddiodd, o mor rymus,
Meistr Davies o'r New Inn.

60. Gwedi hyny codwyd allan,
Yn dra buan yn ei arch,
Y gwr bregethai trwy'r blynyddau,
Heb ddim blotiau mewn mawr barch;
Meistr Morgan o Caerfyrddyn,
Draethau gwedyn eiriau gwir,
A rho'dd Davies Cerigcadain,
Emyn allan yno'n glir.

61. Gwedi hyny gan alaru,
Awd dan ganu tua'r lle,
Torwyd beddrod gan y dynion,
I gladdu ei weddillion ef;

Wedi myned mewn i'r fynwent,
  Pawb eisteddent ar y glâs,
'Doedd gwiw cynnig myn'd i'r cappel,
  Y dorf fu'n dawel wrando ma's.

62. Meistr Thomas Llangynidr,
  Gwr sydd brysur iawn bob pryd,
Roddodd emyn maes yn gyntaf,
  Fel cai'r dyrfa ganu i gyd
Williams, Canaan, codai yntau,
  A darllenai'n eithaf da,
Lle mae hanes marw Moses,
  Yn ei le daeth Joshua.

63. Davies Llanfair roddodd hefyd,
  Emyn hyfryd yn ein clyw,
Meistr Griffiths wedi hyny,
  I'r dorf gael canu mawl i Dduw;
Meistr Jones, Crygybar, weddiodd,
  Yno'n gyhoedd ar y ma's,
Doctor Rees o Abertawe,
  Bregethai am y ffyddlon was.

64. Meistr Thomas o Llynlleifiad,
  Ddywedai mewn fath deimlad dwys,
Meistr Morris mewn bur adeg,
  Ddywedai'n saes'neg gyda phwys;
Meistr Evans o Caernarfon,
  Un o'r dynion mwyaf mawr,
Cododd yntau yno i fynu,
  A gwnai draethu fel rhyw gawr.

65. Wedi hyny fe wnaed rhoddi,
  Corph ein hybarch dad i lawr,
Ac annerchiad gawd gan Kilsbi,
  Mae'n ddyn i'w ryfeddu'n fawr;
Meistr Lewis o Brynberian,
  Godai'n fuan uwch y bedd,
Ac fe draethau ragoriaethau,
  Y gwr sydd gartre' yngwlad yr hedd.

66. Meistr Davies o Llanelly,
 Wnaeth ei gladdu trist yw'r ffaith,
Evans Llanbrynmair ro'dd emyn,
 Hyn oedd terfyn yr holl waith;
Meistr Griffiths roddodd gyfle,
 Cyn gwasgarau'r dyrfa fawr,
I bob un ei wel'd e'n gorwedd,
 Mewn gwael agwedd yno i lawr.

67. Meistr Griffiths y gweinidog,
 Wnaeth yn enwog iawn ei ran,
Anfon at y gweinidogion,
 A doent yn ffyddlon o bob man;
Ac fe drefnodd dydd yr anglodd,
 Fel rhyfeddodd llawer iawn,
Ei fedrusrwydd fe gawd arwydd,
 O'i barodrwydd mae'n ddyn llawn.

68. Pe gwnawn i tra pare'm dyddiau,
 Wneud fy ngoreu i ddyweud ar gân,
Am y gwr ddihangodd adre',
 Ei ragoriaethau fyddai mla'n;
Mae ef heddyw'n moli'r Iesu,
 Wnaeth bregethu îs y nen,
Ond mae'n rhaid i mi derfynu,
 Gan alaru mawr. Amen.

**Nid oes neb i Argaphu y farwnad hon heb genad yr awdwr.**

D. WILLIAMS, ARGRAFFYDD, ABERHONDDU.